

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cyfarfod Mis Mehefin 2017 o'r Cyngor Full Council Meeting for month of June 2017

Rhoddir rhybydd y cynhelir Cyfarfod Misol nesaf o'r Cyngor ar **Nos Lun, 15 Mehefin 2017 yn Neuadd Pentref Carmel i gychwyn 7.30 yr hwyr** ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.

Notice is hereby given that the next Monthly of the Council will be held on **Monday, 15 June 2017 at Carmel Village Hall to commence 7:30 pm** and you are summoned to appear

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.
Planning applications will be available to view twenty minutes before the stating time

Amgaeaf y canlynol i chwi – The following is enclosed -

- 1) Rhaglen Cyfarfod 15 Mehefin 2017- Agenda for the Council Meeting 15 June 2017
- 2) Cofnodion drafft Cyfarfod Blynnyddol a gynhaliwyd 15 Mai 2017- Minutes for the AGM held 15 May 2017
- 3) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 15 Mai 2017 – Draft Minutes of the Council Meeting 15 May 2017.

Cyfarfod	Cyfarfod o'r Cyngor Llawn – Full Council Meeting
Dyddiad	Nos Lun/ Monday 15 Mehefin / July 2017
Amser	7.30 yr hwyr / pm
Lleoliad	Neuadd Pentref Carmel Village Hall

Rhaglen *(noder y bydd Mr Huw Roberts yn bresennol i gyfieuthu'r trafodaethau / note that Mr Huw Roberts will be in attendance to translate proceedings)*

- 1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome*
- 2 Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau / *Apologies from Members*
- 3 Enwebu Aelodau / *Nominate New Members*
Mr David Davies, i gynrychioli / to represent Ward Y Groeslon
Mr Clive Bayley i gynrychioli / to represent Ward Llandwrog
- 4 Datgan Buddiant Personol Neu Buddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen / *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.*
- 5 Croeso i Aelod Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dilwyn Lloyd sydd yn cynrychioli trigolion Carmel a Fron ar Ward Talysarn / *Welcome to Gwynedd Council member, Councillor Dilwyn Lloyd representing the residents of Carmel & Fron on the Talysarn Ward*
- 6 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol fel Rhai Cywir (15 Mai 2017) – *To Accept the Minutes of the Councils Annual General Meeting (15 May 2017)*
- 7 Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*
- 8 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (15 Mai 2017) – *To Accept the Minutes from the Previous Meeting (15 May 2017)*
- 9 Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes*
 - a) Ciosg Cilgwyn **Kiosk**
Diweddariad ar y noson/ Update in the meeting
 - b) Gofidion am Trafnidiaeth yn Sgwar (Coleg) Carmel / **Concerns regarding traffic at Carmel Square**

Anfonwyd y canlynol i Dylan Wynn Jones o Gyngor Gwynedd gan Cyng. Helen Hughes, Carmel

Ysgrifennaf atoch fel cynghorydd Cyngor Cymuned Llandwrog, Ward Carmel i leisio pryderon am y sgwâr yma yn y pentref neu a rhoi ei enw swyddogol - Coleg Carmel.

Mae maint y drafnidiaeth drwy'r sgwâr wedi dyblu neu dreblu yn ddiweddar yn enwedig felly oherwydd y gwastraff llechi sy'n cael ei gario gan lorïau a thractorau mawr trwm o'r Fron i lawr i'r ffordd fawr ac i gyfeiriad Penygroes.

Fel y gwyddoch nid yw'r lonydd na'r sgwâr wedi eu creu i wrthsefyll pwysau anferthol.

Fy syniad i oedd cael llinellau coch i arwain tuag at y sgwar fuasai'n arafu'r traffig - rhai fel sydd o dan yr hen ysgol ym Mhenfforddfelen Groeslon.

Nid yw'r arwydd 30 s'yn is na Llidiart y Mynydd ger Fferm Tyddyn Perthi yn ddigonol ac ni fuasai'r "humps" yn gweithio oherwydd natur serth y lôn.

O fy mrofiad personol mae'r llinellau coch yn ein rhwystro fel gyrrwyr i arafu i lawr.

Y syniad ydi rhoi'r llinellau coch ar y bedair lôn. sy'n arwain i'r sgwâr ac efallai hefyd eu hestyn cyn belled a Bryn Llifon gan wneud i ffordd a'r ddau "hump" sy'n bodoli ac sy'n beryglus yn ôl aelod arall o'r Cyngor Cymuned, Alan Patterson, sy'n byw yno.

Hoffwn felly petaech fel adran yn monitro'r sefyllfa cyn i ddamwain hegr ddigwydd ac yn adrodd yn ôl gyda'ch penderfyniad i'r clerch.

Derbyniwyd yr ymateb ganlynol -

Diolch am eich e-bost.

Nodaf eich pryderon ynglŷn â'r groesffordd yn enwedig a niferoedd y traffig a'i chyflymder.

Yn anffodus ni allwn wneud rhy llawer am niferoedd y cerbydau yn gyffredinol gan fod hyn yn ffordd gyhoeddus sy'n agored i bawb yw defnyddio. Fodd bynnag yn unol â chaniatâd Cynllunio'r chwarel mae'n amodol fod defnydd lorïau trymion i'r chwarel yn cael ei gyfyngu i 4 lori'r diwrnod. Os rydych yn credu fod yr amod yma yn cael anwybyddu gan y chwarel mae modd i chwi cysylltu gyda Dafydd Gareth Jones (swyddog mwynau Gwasanaeth Cynllunio).

O ran eich cais am linellau coch ar y gyffordd, o beth yr ydych yn disgrifio, credaf mai `rumble strip` yr ydych ar ei ôl? Sef cyfres o sribedi coch sy'n creu dirgryniad o fewn y cerbyd pan y teithio drostynt ar gyflymder uchel.

Fel rheol mae'r rhain yn cael ei osod ar gyrion pentrefi i gyd fynd ag arwyddion cyfyngiad cyflymder, pan fod rhaid i gerbydau gostwng ei gyflymder, mae'r rhain yn gweithio trwy'r bod y cerbyd yn teithio drostynt ar gyflymder uchel a bod y dirgryniad yn gwneud iddynt ostwng ei gyflymder i gyd fynd a'r cyfyngiad cyflymder perthnasol. Nad yw yn addas o fewn ganol pentrefi a lle mae cyflymder traffig yn isel. O ran safle Coleg Carmel, mae twmpathau yn bodoli yn yr ardal, mesuriadau fwyaf effeithiol sydd ar gael i leihau cyflymder traffig ac felly fydd yn anodd iawn i gynnig mesuriadau pellach na hyn, enwedig rhai sydd ddim yn addas i'r lleoliad a lle nad oes damwain wedi ei gofnodi yno o fewn y 6 mlynedd diwethaf ac ond 1 damwain o fewn y 23 mlynedd diwethaf.

Hoffwn eich hysbysu mai cyfrifoldeb yr Heddlu yw gorfodi cyfyngiadau cyflymder.

Gobeithio fod yr uchod yn esbonio ein sefyllfa ar y mater ac mae croeso i ti gysylltu â mi am sgwrs bellach

c) Gardd Gymunedol Carmel , Carmel Community Garden

Diweddariad ar y noson/ Update in the meeting – Cyfarfod cyhoeddus wedi ei alw gan Pwyllgor Pentref Carmel ar Nos Fawrth 13 Mehefin. Public meeting arranged by the Village Committee on 13 June.

Gweler yr ohebiaeth dderbyniwyd gan y Pwyllgor – Diwedariad ar y noson – Update in the evening

*Annwyl Gyngor,
Yn gyntaf, diolch am eich gohebiaeth.
Dwi'n meddwl taw y peth hawsaf fyddai i fi ymateb wrth ochor eich pwyntiau isod.
Fel y gwyddoch, rydym wedi gwahodd trigolion y pentref i gyfarfod cyhoeddus ar yr 13eg o Fehefin.
Gobeithiaf y bydd diddordeb bryd hynny i edrych ar ffordd ymlaen gyda'r tiroedd, gan obeithio y bydd
aelodau o'r cyngor cymuned yn gallu bod bresennol.
Rhaid i mi ategu, yn ychwanegol i'r isod, bod rhwystredigaeth o'n hochr ni hefyd, ond gobeithio bydd
modd dennu mwy o bobol i fod yn bresennol.
Bu lolo a finnau a dau arall yn yr ardd bythefnos yn ôl yn clirio'r llwybrau.
Mae llawer o waith i'w wneud. Mae gennym ni syniadau am y ffordd ymlaen, ond mae angen
mewnbwn gan drigolion y pentref, cyn aelodau'r pwyllgor (yn enwedig y rhai a fu ynghlwm a'i sefydlu'n
wreiddiol) a ninnau ar y ffordd ymlaen mwyaf llwyddiannus.*

d) **Caeau Pel-droed Carmel a Fron [Football Fields](#)**

Clerc wedi arwyddo y Ffurflenni TP1 a Pre Emption yn Swyddfa Gareth Griffiths y Cyfreithiwr Y
Cyngor / [TP1 & Pre Emption Forms signed by the Clerc at the offices of Gareth Griffiths, Solicitor.](#)

e) **Pwyllgor Safonau Cyngor [Gwynedd Councils Standards Committee](#)**

Diweddariad ar y noson – [Update in meeting](#)

10 **Materion a Godwyd gan Aelodau – [Matters Arising From Members](#)**

Cyng. Dyfed Williams, Llandwrog

Llwybr Arfordir Dinas Dinlle [Coastal Path](#)

Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon

Cwanclwn Japaneidd – [Japanese Knotweed](#)

Cllr. Eddie Willcox, Y Fron

- 1) [Disclosure to members the contents of the lease for the sports fields](#)
- 2) [Cleaning of cattle grids](#)
- 3) [Cissues with the location of Cattle Grids in Y Fron](#)

Cyng. Helen Hughes, Carmel

Llochesi Bws / [Bus Shelters](#)

Gohebiaeth Wedi ei Dderbyn– [Communication Received](#)

11 **[Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications](#)**

Ceisiadau Mehefin 2017 - [Applications June 2017](#)

C17/0458/17/LL

Inigo Jones & Co Ltd, Gwaith Llechi Tudor, Y Groeslon LL54 7UE

Cais i estynnu'r cafffi presennol, gwneud newidiadau i agoriadau presennol , darapru iard allanol a storfa biniau a chodi estyniad i'r prif adeilad i ddarparu toiledau.

[Application to extend the existing cafe and alter the existing openings, provision of external yard and bin store and erection of extension to main building to provide toilet facilities](#)

C17/0366/17/LL

Tir / Land Y Fron LL54 7BG

Gosod 1 grid gwartheg.

[Provision of 1 cattle grid.](#)

C17/0421/17/LL

Plas Dolydd, Dolydd, Y Groeslon. LL54 7EF

Codi estyniad ochr.

[Erection of side extension.](#)

C17/0430/17/LL

Meillionydd, Bron y Foel, Y Fron. LL54 7BG

Newid defnydd modurdy i lety gwyliau.

[Change of use of garage to holiday accomodation.](#)

C17/0356/17/LL

Tir ger / Land by 5 Rhos Gosen, Y Groeslon. LL54 7TR

Newid defnydd tir i ddefnydd preswyl cysylltiol a rhif 1 Rhos Gosen, ynghyd a chodi modurdy/storfa a chreu mynedfa a lle parcio.

[Change of use of land to residential in connection with 1 Rhos Gosen, together with erection of garage /store and creation of access and parking.](#)

Materion Ariannol / Financial Matters

12 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn 1 Mai 2017 hyd at 31 Mai 2017 – Income Received 1 May 2017 to 31 May 2017

Manylion / Details	Cyfanswm
Dim incwm wedi ei dderbyn yn y cyfnod- no income received this period	

13 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount excluding VAT	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Sic/ Cheque Number
Cyflog y Clerc - Mehefin 2017 – Clerks Salary June 2017	£420.13	£420.13	Uniongyrchol/Direct
HMRC - Treth Incwm Mehefin 2017 – Income Tax June 17	£111.20	£111.20	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc – Mehefin 2017 – Clerks Allowance June 017	£30.00	£30.00	Uniongyrchol/Direct

14 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / Dates of Next Meetings

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn - 20 Gorffennaf 2017 / Full Council – 20 July 2017

Pwyllgorau – i'w gadarnhau / [Committess to be confirmed](#)

**15 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (Gorffennaf 2017)
[Matters to be raised by members for the next meeting in July](#)**

Diwedd - end